Ms Gillian Hart
Clinig Gofal Croen Gresffordd
Lôn Pentre
Wrecsam
LL12 8RN

Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8163
Ffacs: 0300 062 8387
E-bost: HIW@wales.gsi.gov.uk

24 Gorffennaf 2014

Annwyl Ms Hart,

**Parthed: Ymweliad dirybudd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru â Chlinig Gofal Croen Gresffordd ar 2 Gorffennaf 2014**

Fel y gwyddoch, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ymweliad dirybudd â Chlinig Gofal Croen Gresffordd ar 2 Gorffennaf 2014.

**Cefndir**

Roedd yr ymweliad arolygu'n canolbwyntio ar ddadansoddi amrywiaeth o ddogfennaeth, trafodaethau gyda'r rheolwr a thaith o amgylch y safle. Canfuwyd fod y clinig yn lân ac yn daclus gydag amrywiaeth o offer ac addurn modern mewn amgylchedd croesawus.

Roedd y Datganiad o Ddiben a'r Canllaw i Gleifion ar gael yn yr ystafell aros ac yn cynnwys yr wybodaeth berthnasol. Fodd bynnag, mae angen diweddaru'r dogfennau hyn â chyfeiriad a manylion cyswllt newydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Cafodd y cam gweithredu hwn ei gyflawni gan y Rheolwr Cofrestredig.

Roedd gwybodaeth am fodlonrwydd cleifion ar gael a chafodd yr adolygwyr eu hysbysu bod cleifion yn fodlon iawn ar y gofal yr oeddent yn ei gael. Roedd holiadur cleifion yn cael eu hanfon at yr holl gleifion bob blwyddyn. Roedd cyfradd ymateb a dychwelyd da ar gyfer yr holiaduron, a oedd wedyn yn cael eu dadansoddi. Nid oedd yr wybodaeth hon yn cael ei rhannu gyda chleifion ac fe drafodwyd ffyrdd posibl o wneud hyn yn ystod yr ymweliad. Cafodd yr adolygwyr eu hysbysu na chafwyd cwynion dros y flwyddyn ddiwethaf.

Edrychwyd ar gofnodion cleifion ac roeddent yn cynnwys gwybodaeth am hanes meddygol, ffurflenni cydsynio a threfnau triniaeth a oedd yn cael ei diweddaru yn ystod pob ymweliad. Roedd polisïau a gweithdrefnau ar gael hefyd.



Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

Mae'r Rheolwr Cofrestredig, sef yr unig weithredydd, yn diweddaru ei hymwybyddiaeth a'i hyfforddiant mewn perthynas â thân, rheoli data, Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA), iechyd a diogelwch, rheoli heintiau, a chodi a chario. Roedd angen diweddaru hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol (BLS), gan fod hwn wedi cael ei gwblhau ddiwethaf yn 2005. Trafodwyd yr angen am hyfforddiant mewn Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA) ac Amddiffyn Plant Agored i Niwed (POVC) yn ystod yr ymweliad. Cafodd y cam gweithredu hwn ei gyflawni gan y Rheolwr Cofrestredig.

Roedd tystiolaeth o archwiliadau o wasanaethau glanhau a rheoli heintiau. Roedd yr holl asesiadau risg priodol yn bodoli.

Cafodd ffeil y Rheolwr Cofrestredig ei hadolygu ac roedd angen ychwanegu gwiriad cyfredol gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol/Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (CRB/DBS). Mae'r tîm cofrestru yn Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi cael ei hysbysu ynghylch yr angen i adnewyddu'r gwiriad CRB/DBS.

**Y Safle, yr Amgylchedd a'r Cyfleusterau**

Roedd y safle wedi'i gofrestru i ddefnyddio system Golau Pwls Dwys Lumina, gyda chyfleuster laser Q-switched, ynghyd â pheiriant laser dosbarth 1V Paragon Elite Ruby. Roedd y peiriannau wedi'u lleoli mewn ystafelloedd ar wahân, ystafelloedd laser un a dau yn y drefn honno.

Roedd Rheolau Lleol ar gyfer y ddau beiriant wedi cael eu paratoi ym mis Mai 2014 ac roedd protocolau meddygol i fod i gael eu hadolygu nesaf ym mis Awst 2014. Roedd Ymgynghorydd Diogelwch Laser wedi cael ei benodi am y cyfnod o 6 Hydref 2013 tan 5 Hydref 2014, ac roedd adroddiad boddhaol ar ymweliad â'r safle wedi cael ei baratoi yn dilyn ymweliad ar 22 Mai 2014. Hefyd, roedd asesiadau risg ar gyfer y ddau beiriant wedi cael eu paratoi ar 6 Mehefin 2014. Y Goruchwylydd Diogelwch Laser oedd yr unig berson oedd wedi'i awdurdodi i ddefnyddio'r ddau beiriant ac roedd cofrestrau ar wahân yn cael eu cadw o bob triniaeth a roddir. Roedd y dystysgrif hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ar gyfer y Goruchwylydd Diogelwch Laser wedi dod i ben yn ddiweddar, a dylid cael hyfforddiant diweddaru. Cafodd y cam gweithredu hwn ei gyflawni gan y Rheolwr Cofrestredig.

Roedd sbectols diogelwch yn bresennol yn y ddwy ystafell driniaeth, ac yn gymwys i driniaethau penodol. Roedd polisi ar gyfer cadw allweddi peiriannau'n ddiogel, pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. Roedd y ddau beiriant wedi cael eu trin a'u calibro ym mis Mai 2014. Roedd yr holl osodiadau gwasanaethau'n cael eu cynnal a'u cadw'n foddhaol, ac eithrio'r gosodiad gwifrau trydanol, yr oedd y dystysgrif ar ei gyfer wedi dod i ben. Roedd gwiriadau diogelwch wythnosol yn cael eu cwblhau a'u cofnodi'n briodol.

**Fe Wnaeth yr Ymweliad Amlygu'r Meysydd Nodedig Canlynol**



Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

- Mae'r gofal yn berson-ganolog; ac mae preifatrwydd, urddas ac unigolrwydd yn cael eu hystyried
- Roedd nodiadau cleifion yn llawn gwybodaeth ac yn gyfoes (cofnodion yn cael eu diweddaru ar y pryd)
- Roedd cofnodion da'n cael eu cadw o osodiadau gwasanaethau ac offer

**Pryderon**

- Mae angen gwiriad CRB/DBS ar gyfer y Rheolwr Cofrestredig
- Mae angen hyfforddiant diweddaru mewn Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed a Chynnal Bywyd Sylfaenol
- Diffyg tystysgrif gyfredol ar gyfer y gosodiad gwifrau trydanol

Rhoddwyd adborth ar lafar trwy gydol ac ar ddiwedd yr ymweliad.

**Gofynion Newydd o ganlyniad i'r Arolygiad hwn**

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r gofynion rheoleiddiol a'r camau gweithredu sy'n angenrheidiol o ganlyniad i'r arolygiad hwn.

| **Camau Gweithredu sy'n Ofynnol** | **Rhif y Rheoliad** |
|---|---|
| Mae angen statws CRB | Rheoliad 20(1)(a)(b) ac 20 (2) (a) (b)<br>AGIC yn canlyn arni â hyn. |
| Mae angen hyfforddiant diweddaru mewn Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed a Chynnal Bywyd Sylfaenol | Rheoliad 20(1)(a)(b) ac 20 (2) (a) (b)<br>Wedi'i gwblhau. Cadarnhawyd gan y RhC |
| Mae angen diweddaru'r Datganiad o Ddiben â chyfeiriad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | Rheoliad 8<br>Wedi'i gwblhau. Cadarnhawyd gan y RhC |
| Mae angen diweddaru'r Canllaw i Gleifion â chyfeiriad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | Rheoliad 7<br>Wedi'i gwblhau. Cadarnhawyd gan y RhC |
| Trefnu i ddiweddaru Hyfforddiant Craidd Gwybodaeth | Rheoliad (45)(3)<br>Wedi'i gwblhau. Cadarnhawyd gan y RhC |



Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

| | |
|---|---|
| Darparu copi o dystysgrif gyfredol ar gyfer y gosodiad gwifrau trydanol. | Rheoliad 26(2)(a)<br>Wedi'i gwblhau. Cadarnhawyd gan y RhC |

Hoffai AGIC ddiolch i'r Rheolwr Cofrestredig am ei hamser a'i chydweithrediad yn ystod yr ymweliad.

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn ddiymdroi os byddwch yn dymuno trafod cynnwys y llythyr hwn.

Yn gywir



**Phil Price**
Rheolwr Arolygu



Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk